**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Clare Pillman
Prif Weithredwr
Cyfoeth Naturiol Cymru

6 Mawrth 2019

Annwyl Clare

**Craffu blynyddol ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn cyfarfod 13 Chwefror**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 13 Chwefror i roi tystiolaeth mewn cysylltiad â'n craffu blynyddol ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru. Cafodd y Pwyllgor ei galonogi gan eich tystiolaeth ac mae'n awyddus i ddilyn cynnydd Cyfoeth Naturiol Cymru dros y flwyddyn sydd i ddod dan eich arweiniad.

Yn sgil eich tystiolaeth, hoffai'r Pwyllgor wneud y sylwadau a ganlyn, a byddai'n croesawu eglurhad a/neu fanylion pellach ar y materion a nodir isod.

**Mesurau perfformiad**

Yn ôl Cynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru, byddai mesurau tymor canolig i ddangos sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn perfformio dros oes y Cynllun Corfforaethol yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'i Gynllun Busnes ar gyfer 2018-19. At hynny, mae'n nodi bod mesurau hirdymor yn cael eu datblygu o hyd.

Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrthym fod y mesurau a'r dangosyddion hirdymor o fewn y cynllun corfforaethol a bod mesurau tymor canolig a ddylai helpu i gyflawni'r mesurau hynny yn y tymor hwy yn y Cynllun Busnes ar gyfer 2018-19. Er gwaethaf hyn, nid yw'n ymddangos fel bod y mesurau yn yr un o'r dogfennau hyn**. Felly, byddem yn croesawu eglurhad pellach ynghylch y mater. Hoffem ichi ddarparu manylion am fesurau hirdymor a thymor canolig Cyfoeth Naturiol Cymru, yn arbennig beth maent yn ei fesur, sut maent yn rhyngweithio, a phryd a ble y byddant yn cael eu cyhoeddi.**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

## Ailgynllunio sefydliadol

Mewn tystiolaeth inni, awgrymodd eich rhagflaenydd y gallai ailgynllunio sefydliadol Cyfoeth Naturiol Cymru arwain at arbedion ariannol o £10 miliwn y flwyddyn. Fodd bynnag, gwnaethoch ddweud wrthym nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru wneud gorfod gwneud yr arbedion hynny o ganlyniad i safbwynt darbodus ond ychydig yn fwy optimistaidd o incwm pren a phenderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â lleihau eich cyllideb refeniw llifogydd. Rydym yn cwestiynu a yw'r ailgynllunio sefydliadol yn gyfle sydd wedi'i golli i wneud arbedion ariannol sylweddol yn yr hirdymor. **Hoffem gael manylion am unrhyw arbedion ariannol sy'n deillio o'r ailgynllunio sefydliadol, yn ogystal â'ch cynlluniau tymor hwy i wneud yr arbedion amcangyfrifedig o £10 miliwn y flwyddyn.**

Rydym yn nodi y dylai strwythur newydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn y broses ailgynllunio sefydliadol fod ar waith i raddau helaeth erbyn 1 Ebrill 2019 a'ch bod yn bwriadu monitro a gwerthuso ei effeithiolrwydd maes o law. **Hoffem gael rhagor o fanylion ynghylch sut a phryd y bydd y gwaith monitro hwn yn cael ei ddatblygu.**

Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymgymryd â gwaith ar gyflog cyfartal fel rhan o'i Gynllun Gwerthuso Swyddi. **Hoffem gael manylion am ganfyddiadau'r gwaith hwn, yn ogystal â'r camau a gymerir i fynd i'r afael â gwahaniaethu cyflog os canfuwyd unrhyw beth.**

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Yn ystod eich sesiwn dystiolaeth, fe'ch holwyd ynghylch cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd wedi cael barn amodol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am dair blynedd yn olynol, gan gynnwys y flwyddyn ariannol 2017-18. Nodwn y cafodd y cyfrifon farn amodol ar sail afreoleidd-dra yn hytrach nag anghywirdebau. Fodd bynnag, mae'n wir o hyd eich bod chi, fel Swyddog Cyfrifyddu, wedi cymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer 2017-18, cyfnod lle daeth sawl mater sy'n ymwneud â dyfarnu contractau gwerthu pren i'r amlwg. Pwysleisiwyd y gallai'r 'materion hanesyddol hyn' olygu na ellir osgoi rhoi barn amodol ar gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2018-19. Nid yw hyn yn rhoi'r lefel o sicrwydd yr ydym am ei gael. **Hoffem ichi ymhelaethu ar eich honiad ac egluro sut y byddwch yn bodloni eich hun eich bod wedi cael sicrwydd digonol a phriodol cyn cymeradwyo cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y flwyddyn nesaf, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu.**

## Datganiadau ardal

Yn eich tystiolaeth, gwnaethoch egluro bod yr oedi o dri mis yn cyhoeddi'r Polisi Adnoddau Naturiol yn golygu bod y gwaith o ddatblygu'r Datganiadau Ardal wedi'i ohirio gan yr un cyfnod. Fodd bynnag, mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ('y Gweinidog') wedi dweud wrthym yn flaenorol bod eich amserlen ar gyfer Datganiadau Ardal wedi'i ohirio gan bron flwyddyn (o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020). **Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch pryd y byddwch yn rhagweld y bydd Datganiadau Ardal yn cael eu cyhoeddi a sut y mae hyn yn wahanol i'ch amserlen wreiddiol. Byddem hefyd yn hoffi ichi ymhelaethu ar y rhesymau dros yr oedi hwn.**

## Cyllid

Yn flaenorol, mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryderon gyda'r Gweinidog ynghylch y gostyngiadau sylweddol i gyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20, gofynnwyd i'r Gweinidog adrodd yn ôl inni ar gynnydd y trafodaethau sy'n ymwneud â chyllid Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys opsiynau i gynyddu gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i gynhyrchu incwm.

Rydym yn disgwyl diweddariad gan y Gweinidog ddechrau'r haf. Fodd bynnag, yn ei hymateb dros dro, nododd y Gweinidog fod Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn gallu cynhyrchu incwm. Ymddengys y gallai fod gwahaniaeth barn ar a/neu ddehongliad o allu Cyfoeth Naturiol Cymru i gynhyrchu incwm. Yn eich tystiolaeth inni, gwnaethoch awgrymu y dylid dychwelyd llawer o unrhyw incwm a gynhyrchir i Lywodraeth Cymru. **Rydym yn gofyn am eglurhad pellach o ffynonellau presennol a phosibl cynhyrchu incwm, gan gynnwys faint o incwm y gall Cyfoeth Naturiol Cymru ei gadw a faint sy'n cael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru.**

Yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2019-2020, gwnaethom fynegi pryder y gallai blaenoriaethu cyllid i gyflawni dyletswyddau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau anstatudol. Wrth wneud sylwadau ar y gostyngiadau diweddar i'r gyllideb, gwnaethoch ddweud wrthym pan fo toriadau wedi digwydd, maent wedi digwydd yn anghymesur ar feysydd penodol o'r busnes, gan gynnwys rheoli adnoddau naturiol a bioamrywiaeth. **Hoffem ichi ddarparu enghreifftiau penodol lle mae toriadau cyllidebol wedi effeithio ar wasanaethau a/neu weithgareddau yn y meysydd hyn, ac unrhyw feysydd eraill, a goblygiadau hyn.**

Pan holwyd chi ynghylch y cyllid sydd ei angen i ymgymryd â gwaith ar gronfeydd dŵr newydd yn eich perchenogaeth, gwnaethoch ddweud wrthym fod gennych raglen waith barhaus, sy'n cael ei hariannu ar hyn o bryd ar sail 'o un flwyddyn i'r llall'. Rydym yn nodi y bydd £3 miliwn o gyllid ychwanegol ar gael yn 2019-2020 ar gyfer y gwaith hwn. Gwnaethoch ddweud wrthym hefyd nad oedd unrhyw gyllid ychwanegol ar gael i dalu'r gost o reoleiddio cronfeydd dŵr newydd.

Wrth ymateb i'n hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2019-2020, dywedodd y Gweinidog wrthym fod trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU i sicrhau cyllid ychwanegol sy'n deillio o'r goblygiadau o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i adrodd yn ôl inni ym mis Mehefin 2019, ac, yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau hynny, efallai y byddwn am barhau i fynd i'r afael â'r mater hwn gyda hi.

Yn y cyfamser, ac er mwyn ein cynorthwyo ymhellach, **hoffem ichi ddarparu manylion am gyfanswm y gost sy'n gysylltiedig â rhaglen waith Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cronfeydd dŵr, gan gynnwys yr amserlenni yr ydych yn gweithio tuag atynt. Byddem hefyd yn hoffi unrhyw asesiad o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â rheoleiddio cronfeydd dŵr newydd nad ydych yn berchen arnynt, a sut yr ydych yn bwriadu talu'r rhain.**

**Goblygiadau i Cyfoeth Naturiol Cymru yn sgil y DU yn ymadael â'r UE**

Rydym yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ymgymryd â gwaith cynllunio wrth gefn strategol a rheoli parhad busnes rhag ofn y bydd sefyllfa dim cytundeb yn sgil Brexit. Hoffem gael rhagor o fanylion am y canlynol:

- **y camau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cymryd i ymateb i'r posibilrwydd o stocio cynnyrch a gwastraff mewn porthladdoedd pe bai dim cytundeb yn sgil Brexit,**

- **y trafodaethau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u cael â phorthladdoedd a sut yr ydych wedi cynnwys hyn yng nghynllun wrth gefn Llywodraeth Cymru ar gyfer traffig porthladdoedd, a**

- **sut y byddai'r £3.7 miliwn y gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru amdano gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith sy'n gysylltiedig â Brexit yn cael ei wario, a'r goblygiadau os na allwch sicrhau'r cyllid hwn.**

## Caniatâd amgylcheddol

Rydym yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gohirio gwaith gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar y matrics sy'n dangos sut y dylai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fod yn berthnasol i benderfyniadau caniatâd amgylcheddol. Roedd hyn oherwydd eich bod yn aros i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar y mater hwn. Nodwn fod y canllawiau bellach wedi'u cyhoeddi.  Mewn tystiolaeth inni, gwnaethoch ddweud wrthym eich bod yn ailgychwyn trafodaethau ac awgrymwyd y byddai gwaith ar y matrics yn ailddechrau. Hoffem gael eglurhad pellach ar y mater hwn, gan gynnwys yr amserlen y byddwch yn gweithio tuag ati i gwblhau'r matrics.

## Ymgysylltu â'r gymuned

Cafodd y Pwyllgor ei galonogi gan y gwaith y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud i ymgysylltu â chymunedau trefol a lled-drefol gyda'r amgylchedd naturiol, yn enwedig y prosiect 'Greener Grangetown' a phrosiect Sir Ddinbych sy'n gysylltiedig â 'rhagnodi gwyrdd'. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am y prosiectau hyn, gan gynnwys y canlyniadau a ragwelir a sut y byddant yn cael eu mesur.

Diolch eto am ddod i'r cyfarfod. Ein bwriad yw parhau i graffu ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru yn flynyddol. Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i'ch gwahodd i roi tystiolaeth ar unrhyw adeg o fewn y 12 mis nesaf, pe bai'r angen yn codi.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallem gael ymateb erbyn 27 Mawrth.

Yn gywir,

**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**